# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO

# DYDD MAWRTH, 16 EBRILL 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd R.E. Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| B. Davies | T. Davies | H.L. Davies | M. Palfreman |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| D.M. Cundy | W.R.A. Davies | B.W. Jones | D. Owen |
| H.B. Shepardson | R. Sparks | M. Thomas | |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Y Cynghorydd L.D. Evans – Aelod Cabinet dros Gartrefi a'r Dirprwy Arweinydd
Y Cynghorydd A. Lenny - Aelod Cabinet dros Adnoddau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)**
Y Cynghorydd A. Davies - Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol
I. Jones, Pennaeth Hamdden
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
A. Williams, Pennaeth Y Gwasanaethau Integredig
D. Jones, Cyfrifydd Grwp
R. C. Reynolds, Project Officer
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 11.15 yb - 12.55 yp**

(NODER: Oherwydd bod y Pwyllgor wedi dychwelyd yn hwyr ar ôl bod ar ymweliad safle cynharach, gohiriwyd dechrau'r cyfarfod, a oedd fod i ddechrau am 11.00am.)

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd K. Howell.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd B. Davies i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor yn dilyn ei gyfnod o salwch yn ddiweddar.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| R. Sparks | 4 – Adroddiad Cynnydd Pentre Awel | Mae ganddo fusnes nofio ac mae'n cynnal gwersi nofio; mae ganddo ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ar hamdden ond nid pleidleisio |
| R. Sparks | 5 – Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2023/24 (01/04/23-31/12/23) sy'n berthnasol i'r maes craffu hwn | Mae ganddo fusnes nofio ac mae'n cynnal gwersi nofio; mae ganddo ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ar hamdden ond nid pleidleisio |
| R. Sparks | 6 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf | Mae ganddo fusnes nofio ac mae'n cynnal gwersi nofio; mae ganddo ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ar hamdden ond nid pleidleisio |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADRODDIAD CYNNYDD PENTRE AWEL

(NODER: Roedd y Cynghorydd R. Sparks wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried)

Cafodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Brosiect Pentre Awel a sicrwydd bod y prosiect yn cael ei gyflawni yn ôl y targed a'r amserlen.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at oblygiadau refeniw'r datblygiad arfaethedig a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, yn seiliedig ar gyflawni'r model busnes a'r

ddeiliadaeth yn llawn, y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r safle yn cael eu talu trwy incwm rhent / taliadau am wasanaethau. Yn hynny o beth, roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar ailasesu'r Cynllun Busnes gwreiddiol.

Cadarnhaodd Pennaeth y Prosiectau Cyfalaf sy'n gysylltiedig ag Iechyd nad oedd cytundebau wedi'u gwneud ar gyfer meddiannaeth lawn yn y datblygiad er bod gan y datblygiad rai prif denantiaid ar hyn o bryd. Nid oedd hyn yn anarferol ar y cam hwn wrth ddatblygu safle mawr gan fod darpar denantiaid yn fwy tebygol o lofnodi bwriadau i rentu ar brydles pan fyddent yn gallu gweld y cynnyrch terfynol y byddent yn ymrwymo iddo. Roedd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau tenantiaid pellach ac roedd hefyd wrthi'n ymgysylltu ag asiant eiddo i ddenu tenantiaid.

- Cyfeiriodd y Pennaeth Hamdden at sylw a wnaed ynghylch effaith bosibl cost y ganolfan hamdden newydd ar gyllideb y gwasanaethau hamdden ac atgoffodd y Pwyllgor fod rhai rhannau o bortffolio'r Gwasanaethau Hamdden yn gweithredu ar elw ar hyn o bryd, ac mae'r elw hwnnw'n cael ei ddefnyddio i ariannu meysydd gweithredol eraill o fewn y portffolio. O ran gweithredu'r ganolfan hamdden newydd, roedd y datblygiad yn darparu mwy o gyfleoedd i gynhyrchu incwm na'r hyn sydd ar gael yng Nghanolfan Hamdden Llanelli ar hyn o bryd, gan gynnwys pwll nofio mwy o faint, campfa, a chyfleusterau arlwyo gwell. Felly, rhagwelwyd na fyddai'r ganolfan yn cael effaith andwyol ar y gyllideb hamdden ac roedd y gost honno wedi'i chynnwys yn y gyllideb.

- O ran y bwriad i gynnwys cartref nyrsio'r sector cyhoeddus o fewn y datblygiad, cadarnhaodd y Pennaeth Prosiectau Cyfalaf sy'n Gysylltiedig ag Iechyd nad oedd unrhyw rwystr cyfreithiol i sefydliad sector cyhoeddus weithredu cartref nyrsio. Er nad oedd cyfleusterau o'r fath yn gweithredu yng Nghymru, roedd tua 40 o gartrefi nyrsio yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol yn Lloegr ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda rhai o'r rheiny i asesu sut y cawsant eu gweithredu. Roedd rhywfaint o waith dichonoldeb yn cael ei wneud ar lefel ranbarthol o ran modelau gweithredu arfaethedig; roedd dau ddewis. Y cyntaf oedd y byddai'r Awdurdod Lleol yn rhedeg y cartref, ond byddai'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi ac yn cadw llywodraethu clinigol ar gyfer y nyrsys. Yr ail ddewis oedd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn dirprwyo awdurdod i'r Awdurdod Lleol gyflogi a darparu'r llywodraethu clinigol ar gyfer y nyrsys.
- O ran penodi Llysgenhadon Cymunedol ar gyfer y datblygiad, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod 12 llysgennad o'r fath ar hyn o bryd ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu'r nifer hwnnw i sicrhau bod y gymuned ehangach yn cael ei chynnwys a bod y gymuned yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol. Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor y byddai manylion ynghylch y cynllun llysgenhadon yn cael eu darparu i'r aelodau. Fodd bynnag, dylid nodi na allai Cynghorwyr Sir fod yn Llysgenhadon Cymunedol.
- Cyfeiriwyd at y pwyslais o fewn Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar sicrhau bod y datblygiad yn darparu budd i'r gymuned ac yn creu swyddi, a chroesawodd y Pwyllgor y newyddion fod y swm o £70m sy'n cynrychioli 72% o gyfanswm y gwariant, hyd yma, wedi'i ddyrannu i gwmnïau yng

Nghymru, ac roedd 9% o'r gwariant hwnnw wedi'i wario o fewn ardal y côd post SA.
- Cadarnhawyd bod cysylltiadau ac ymgysylltu ar waith gyda Llesiant Delta o ran ei gyfraniad at ddatblygiad y safle sy'n berthnasol i'w gylch gwaith gweithredol.
- Cadarnhawyd bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gyfyngu ar effaith carbon y datblygiad ac i annog ei gynaliadwyedd amgylcheddol parhaus.
- O ran cwestiwn ynghylch y modd y gweithredir y pwll nofio yn y ganolfan hamdden newydd o ran cyfleoedd canŵio a nofio tanddwr a'r ddarpariaeth chwaraeon ehangach o fewn ardal arfordirol Llanelli, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod Rhwydwaith Chwaraeon Sir Gaerfyrddin newydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar sy'n cynnwys sefydliadau cenedlaethol a lleol ac roedd gan yr awdurdod berthynas dda â'r Rhwydwaith hwnnw. O ran yr agwedd benodol sy'n ymwneud â defnyddio'r pwll ar gyfer canŵio ac ati, byddai hynny'n ddibynnol ar nifer o ffactorau gan gynnwys y galw. Hefyd gellid cynnal trafodaethau ynghylch darparu hyn mewn lleoliadau eraill gan gynnwys Doc y Gogledd, Llynnoedd Delta a Dyffryn y Swistir.
- Mewn perthynas â mynediad i'r datblygiad i unigolion nad ydynt yn berchen ar geir, dywedwyd wrth y pwyllgor y daethpwyd i gytundeb â gweithredwr bws preifat i ddarparu llwybr bws cylchol sy'n cysylltu canol y dref ag Ysbyty'r Tywysog Philip, Parc Adwerthu Trostre a Phentre Awel, gan stopio ym Mhentre Awel 7 gwaith y dydd.
- Cadarnhawyd, er nad oedd darpariaeth o fewn y datblygiad ar gyfer croesfan i gerddwyr wrth fynedfa'r safle i Bentre Awel, roedd Gorchymyn Traffig Ffyrdd yn cael ei brosesu i leihau cyflymder traffig yn yr ardal, o 40mya i 30mya, i wella diogelwch cerddwyr.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad cynnydd**

## 5. ADRODDIAD PERFFORMIAD CWARTER 3 - 2023/24 (01/04/23-31/12/23) YN BRIODOL I'R PWYLLGOR CRAFFU HWN

(NODER: Roedd y Cynghorydd R. Sparks wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried)

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2023/24 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2023 mewn perthynas â'r meysydd sy'n dod o fewn ei gylch gwaith yn manylu ar y cynnydd a wnaed ynghylch y camau gweithredu a'r mesurau yn y Strategaeth Gorfforaethol ac ynghylch cyflawni'r Amcanion Llesiant.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:
- Cyfeiriwyd at gam gweithredu 16546 yn yr adroddiad yn ymwneud â gwella profiad cwsmeriaid y gofrestr ceisiadau cynllunio. Er bod mân newidiadau wedi cael eu gwneud o ran hynny, cadarnhawyd y cafwyd oedi o ran gwella hynny oherwydd blaenoriaethau cystadleuol a dyrannu adnoddau.
- Cyfeiriwyd at y ddarpariaeth statudol bresennol lle mae'r Cyngor yn cynghori trigolion lleol am geisiadau cynllunio yn eu hardal/cymdogaeth a

ph'un a fyddai'r cyngor yn gallu mynd y tu hwnt i'r gofyniad hwnnw i fod yn fwy cynhwysol.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod rhan o'r broses gynllunio bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr osod hysbysiadau safle a darparu prawf o hynny i'r adran gynllunio cyn i gais gael ei ystyried. O ran ehangu'r ddarpariaeth honno i ddosbarthu taflenni i'r eiddo agosaf, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai hynny'n arwain at oblygiadau o ran adnoddau i'r adran a byddai'r staff yn cael eu tynnu oddi wrth eu prif ddyletswydd o ran ystyried ceisiadau cynllunio.

Atgoffwyd y Pwyllgor hefyd fod y Cyngor yn gweithredu gwasanaeth cais cyn cynllunio lle gallai datblygwyr posibl gael cyngor gan yr adran gynllunio (am ffi) ynghylch y prosesau, y rhwymedigaethau a'r gofynion a osodir arnynt wrth geisio caniatâd cynllunio. Cadarnhawyd hefyd fod y Cyngor yn cynnal 'Dyddiau i Ddatblygwyr' drwy gydol y flwyddyn i roi cyngor ynghylch y broses gynllunio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

(NODER: Roedd y Cynghorydd R. Sparks wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau Monitro Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2023/24 y Gwasanaethau Tai, Adfywio ac Eiddo, Lle a Chynaliadwyedd a Hamdden ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2023. Nodwyd y rhagwelid tanwariant o £306k yn y gyllideb refeniw, tanwariant o £48,489k yn y gyllideb gyfalaf, a gorwariant o £84k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2025/26, cadarnhawyd bod gwaith paratoi eisoes wedi dechrau yn dilyn hyn. Fodd bynnag, gallai amseriad datganiad y Canghellor ynghylch cyllideb yr hydref effeithio ar ei gynnydd pe bai etholiad cyffredinol yn cael ei alw a fyddai, yn ei dro, yn effeithio ar amseriad cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar y setliad i awdurdodau lleol.
- Cyfeiriwyd at ailddatblygu ardal Heol yr Orsaf/Tyisha yn Llanelli a dywedodd y Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol y byddai dogfennau tendro'n cael eu cyhoeddi'n fuan ar gyfer penodi datblygwr, a byddai'r gyllideb yn cael ei hailbroffilio i adlewyrchu'r gwariant yn y blynyddoedd diweddarach.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf yn cael ei dderbyn.**

## 7. PEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol

- Defnydd Canol Tref Amgen
- Diweddariad ynghylch y Prosiectau Adfywio Mawr
- Fersiwn Drafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol - Cynllun Datblygu Lleol

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r eglurhad ynghylch peidio â chyflwyno'r adroddiad.**

**8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 7 MAWRTH 2024**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a oedd wedi'i gynnal ar 7 Mawrth 2024, gan eu bod yn gywir.**

________________________ ____________________
**CHAIR** **DATE**